YMCHWIL GYMDEITHASOL RHIF: 18/2018
DYDDIAD CYHOEDDI: 28/03/2018

# Arolwg Incwm a Gwariant Myfyrwyr 2014/15 – Fersiwn Derfynol

## Crynodeb Gweithredol

## 1. Cyflwyniad

1.1 Comisiynwyd Arolwg Incwm a Gwariant Myfyrwyr (AIGM) 2014/15 ar y cyd gan Lywodraeth Cymru a'r Adran Busnes, Arloesi a Sgiliau (BIS[1]). Cynhaliwyd yr astudiaeth gan y Ganolfan Genedlaethol Ymchwil Gymdeithasol (NatCen) a'r Sefydliad Astudiaethau Cyflogaeth (IES). Cyflwyna'r adroddiad hwn y canfyddiadau i fyfyrwyr o Gymru. Mae adroddiad ar wahân yn cwmpasu myfyrwyr o Loegr.

1.2 Nod yr arolwg oedd darparu adroddiad awdurdodol ar sefyllfa ariannol myfyrwyr addysg uwch (AU) yng Nghymru a Lloegr yn y flwyddyn academaidd 2014/15 ac asesu effaith y newidiadau i gyllid myfyrwyr a'r gefnogaeth a gyflwynwyd ym mis Medi i'r rheiny sy'n dechrau AU ym mlwyddyn academaidd 2012/13 (yn erbyn y waelodlin a gipiwyd yn 2011/12).

1.3 Cwmpasodd arolwg 2014/15 fyfyrwyr amser llawn a rhan-amser mewn Sefydliadau Addysg Uwch (SAUau) a Sefydliadau Addysg Bellach (SABau), ac roedd yn cynnwys y Brifysgol Agored. Roedd y myfyrwyr a gynhwyswyd yn cymryd rhan mewn cyrsiau israddedig a chyrsiau hyfforddiant cychwynnol i athrawon ôl-raddedig yn y brifysgol yn ystod blwyddyn academaidd 2014/15.

1.4 Casglwyd data rhwng mis Chwefror a Mehefin 2015 trwy:

- Arolwg ar-lein tri deg munud o hyd neu gyfweliad dros y ffôn gyda hapsampl o 1,367 o fyfyrwyr amser llawn a 529 o fyfyrwyr rhan-amser sy'n hanu o Gymru mewn 84 sefydliad ledled Cymru a Lloegr (gan gynnwys y Brifysgol Agored); a
- Dyddiaduron gwariant ar-lein sy'n rhoi manylion y treuliau a wariwyd gan y myfyrwyr hyn yn ystod y saith diwrnod, wedi'u llenwi gan 1,001 o fyfyrwyr sy'n hanu o Gymru.

[1] Comisiynwyd yr ymchwil hon gan yr Adran Busnes, Arloesi a Sgiliau. Mae'r cyfrifoldeb polisi ar gyfer y pwnc hwn bellach wedi'i drosglwyddo i'r Adran Addysg.

## 2. Nodyn methodolegol

2.1 Mae'r dull ymchwil ar gyfer arolwg 2014/15 yn dilyn y dull a ddefnyddiwyd yn arolwg 2011/12 i alluogi ar gyfer cymharu dros amser (a rhwng y ddwy gyfundrefn cyllid myfyrwyr gwahanol sydd ar waith). Fodd bynnag, roedd arolwg 2014/15 ond yn cynnwys myfyrwyr a ddechreuodd eu hastudiaethau yn ystod neu ar ôl blwyddyn academaidd 2012/13 i sicrhau bod myfyrwyr dan y trefniadau cyllid newydd (a gyflwynwyd yn 2012/13) yn cael eu holi ac felly byddai'n bosibl cymharu sefyllfaoedd ariannol myfyrwyr yn lân o dan y gyfundrefn cyn ac ar ôl 2012/13. Mae arolygon 2011/12 a 2014/15 yn gwahaniaethu'n sylweddol i donnau blaenorol AIGM felly dylid bod yn ofalus wrth gymharu ag arolygon cyn 2011/12.

2.2 Er mwyn galluogi ar gyfer cymharu rhwng canfyddiadau 2014/15 a rhai arolwg 2011/12, uwchraddiwyd ffigurau 2011/12 i gyd (yn gyffredinol gan ddefnyddio'r Mynegai Prisiau Manwerthu) i gyfrif am chwyddiant.

2.3 Mae'r adroddiad llawn yn gosod rhagor o wybodaeth am y dulliau a ddefnyddiwyd ar gyfer yr arolwg a dadansoddi data. Mae adroddiad technegol cynhwysfawr am ddulliau holi ar gael hefyd. Cyhoeddwyd y ddau ochr yn ochr â'r crynodeb hwn.

## 3. Prif ganfyddiadau

- Cynyddodd y cyfartaledd incwm ymhlith myfyrwyr amser llawn gan 43 y cant mewn termau gwirioneddol ers yr arolwg blaenorol yn 2011/12, wrth i wariant gynyddu gan swm llai, 34 y cant mewn termau gwirioneddol. Ymhlith myfyrwyr rhan-amser, cynyddodd y cyfartaledd incwm gan swm llai, 14 y cant mewn termau gwirioneddol, wrth i wariant aros yn sefydlog. Roedd y newidiadau hyn yn wahanol i'r rhai a ganfuwyd rhwng 2007/08 a 2011/12, pan gwympodd incwm i fyfyrwyr amser llawn a rhan-amser.

- Y cyfanswm incwm cyfartalog (gan gynnwys y benthyciad ffioedd dysgu) i fyfyrwyr amser llawn yn 2014/15 oedd £16,284, tra £13,962 oedd y ffigur i fyfyrwyr rhan-amser. Yn 2011/12, roedd gan fyfyrwyr rhan-amser incymau cyfartalog uwch na myfyrwyr amser llawn.

- Daeth yr incwm o'r prif ffynonellau a'r ffynonellau targedig wedi'u hariannu gan y wladwriaeth yn ffynhonnell incwm bwysicach i fyfyrwyr amser llawn er 2011/12, gan adlewyrchu'n bennaf ehangiad y pecyn cymorth i ystyried y gyfundrefn ffioedd uwch. Fel cyfran o'r cyfanswm incwm cyfartalog, roedd y prif ffynonellau cymorth i fyfyrwyr yn cyfrif am ddwy ran o dair (67 y cant) yn 2014/15, o gymharu â 60 y cant yn 2011/12, wrth i'r ffynonellau cymorth i fyfyrwyr eraill gyfrannu 11 y cant o gyfanswm incwm i fyfyrwyr amser llawn. Cynyddodd cyfran incwm y myfyrwyr rhan-amser o gymorth wedi'i ariannu gan y wladwriaeth ers yr arolwg diwethaf, yn bennaf yn sgil cyflwyno benthyciadau ffioedd i fyfyrwyr rhan-amser yn 2014/15.

- Yn 2014/15, cafodd ychydig dros hanner y myfyrwyr amser llawn Grant Dysgu Llywodraeth Cymru neu Grant Cymorth Arbennig, sef grant nad oes rhaid ei ad-dalu i helpu gyda chostau byw ac sydd wedi'i anelu at fyfyrwyr mewn cartrefi incwm isel. Roedd y gyfran yn uwch na'r gyfran y canfuwyd yn yr arolwg blaenorol.

- Roedd ychydig dros hanner y myfyrwyr amser llawn mewn gwaith, mwy nag yn 2011/12, ac ymddengys eu bod mewn gwaith ansawdd gwell, gan fod incwm o waith gyda thâl wedi cynyddu rhwng y ddau arolwg, wrth i incwm o'r teulu barhau i syrthio mewn termau gwirioneddol ac fel cyfran o'r cyfanswm incwm, gan gyfrannu dim ond saith y cant yn 2014/15.

- Parhaodd enillion o waith gyda thâl i fod y brif gydran cyfanswm incwm ymhlith myfyrwyr rhan-amser, ac roedd cyfran yr incwm cyffredinol y cyfrifodd amdano yn debyg i'r hyn a ganfuwyd yn arolwg 2011/12, a oedd yn debyg, yn ei dro, i'r hyn a ganfuwyd yn 2007/08.

- Y cyfanswm gwariant cyfartalog (gan gynnwys y costau ffioedd dysgu) i fyfyrwyr amser llawn oedd £19,244, oedd yn sylweddol uwch na £14,324 a ganfuwyd yn 2011/12. Gwariodd myfyrwyr rhan-amser £18,813 a oedd bron union yr un fath â'r ffigur o £18,776 yn yr arolwg blaenorol.

- Ymhlith myfyrwyr amser llawn a rhan-amser, cafwyd codiadau mawr mewn costau cyfranogiad yn sgil codiadau mewn ffioedd dysgu. Roedd y costau cyfranogi ar gyfer blwyddyn academaidd 2014/15 dros ddwbl cyfradd 2011/12 i fyfyrwyr amser llawn, ac roedden nhw wedi cynyddu gan 50 y cant i fyfyrwyr rhan-amser. Fodd bynnag, mae'n bwysig nodi nad oedd rhaid i'r rhan fwyaf o fyfyrwyr amser llawn oedd yn hanu o Gymru dalu am y cynnydd yng nghostau'r ffioedd gan eu bod yn gymwys am Grant Ffioedd Llywodraeth Cymru. Roedd costau eraill, fel costau byw a chostau tai yn gymharol sefydlog rhwng 2011/12 a 2014/15 i fyfyrwyr amser llawn a rhan-amser.
- Cafodd y rhan fwyaf o fyfyrwyr fenthyciadau ac ar gyfer myfyrwyr amser llawn, roedd y rhain yn bennaf ar ffurf benthyciadau myfyrwyr. Arhosodd y cyfanswm benthyg cyfartalog (a hefyd y ddyled net) yn sefydlog i fyfyrwyr amser llawn (yr oedd gwybodaeth ddibynadwy am fenthyciadau myfyrwyr ar gael[2]) rhwng 2011/12 a 2014/15 oherwydd y gefnogaeth ar ffurf Grant Ffioedd Llywodraeth Cymru. Cynyddodd y lefelau benthyca gyda phob blwyddyn astudio, ac felly roedd gan fyfyrwyr yn eu trydedd flwyddyn o astudiaeth y lefelau uchaf o ddyled net gyfartalog o £16,511. Cynrychiola hyn gwymp bach o £17,958 yn 2011/12 oherwydd y lefelau arbedion uwch a ragwelwyd ymhlith y grŵp hwn yn 2014/15.
- O gymharu, gwnaeth y cyfartaledd benthyca gan fyfyrwyr rhan-amser fwy na dyblu rhwng y ddau arolwg oherwydd bod rhai myfyrwyr wedi dod yn gymwys am Fenthyciadau Myfyrwyr ar gyfer Ffioedd Dysgu ac felly'n cronni dyled benthyciadau myfyrwyr, a benthyciodd myfyrwyr rhan-amser symiau cynyddol o ffynonellau masnachol. Gan ddilyn y patrymau hyn, cynyddodd y ddyled net i fyfyrwyr rhan-amser yn sylweddol o £1,233 yn 2011/12 i £5,312 yn 2014/15.

## 4. Canfyddiadau allweddol pellach

**Incwm y myfyrwyr**

4.1 Cyfartaledd cyfanswm incwm y myfyrwyr amser llawn yn ystod blwyddyn academaidd 2014/15 gan gynnwys unrhyw fenthyciad ar gyfer ffioedd oedd £16,284. Cafodd y myfyrwyr rhan-amser oddeutu 14 y cant yn llai gyda'r cyfanswm incwm cyfartalog yn £13,962. Y ffynonellau cymorth allweddol i fyfyrwyr amser llawn oedd y prif ffynonellau a ariennir gan y wladwriaeth a'r ffynonellau targedig (sydd gyda'i gilydd yn cyfrif am 78 y cant o'r incwm cyffredinol ar gyfartaledd, sydd i fyny o 72 y cant yn 2011/12), lle'r oedd enillion o waith gyda thâl yn gyfrannwr allweddol at incwm rhan-amser y myfyrwyr (76 y cant ar gyfartaledd, i fyny o 72 y cant yn 2011/12).

4.2 Ymhlith myfyrwyr amser llawn, amrywiodd y cyfanswm incymau cyfartalog a'u cyfansoddiad yn sylweddol rhwng gwahanol nodweddion myfyrwyr ac astudiaethau. Dyma oedd y prif ffactorau oedd yn gysylltiedig â gwahanol gyfanswm lefelau incwm i fyfyrwyr amser llawn: rhywedd, a oedd yr ymatebydd yn byw gyda'i rieni, y math o deulu, y math o sefydliad a fynychwyd, a'r pwnc a astudiwyd. I fyfyrwyr rhan-amser, arsylwyd amrywiad o hyd a lled tebyg, yn ôl yr astudiaeth a nodweddion personol sy'n cynnwys ethnigrwydd, blwyddyn yr astudiaeth a dwyster yr astudiaeth. Fel gyda'r arolwg blaenorol, nid oedd y cefndir cymdeithasol-economaidd yn gysylltiedig â gwahaniaethau yn y cyfanswm incwm cyfartalog i naill ai fyfyrwyr amser llawn neu ran-amser.

**Incwm o fenthyciadau a mathau eraill o gymorth**

4.3 Mae'r ffynonellau cyllid sydd ar gael i fyfyrwyr amser llawn wedi newid ers yr arolwg blaenorol yn 2011/12, ac roedd tair ffynhonnell allweddol yn cynnwys mwyafrif y cyfanswm incwm cyfartalog - Grant Ffioedd Llywodraeth Cymru, Benthyciad Myfyrwyr ar gyfer Cynhaliaeth, a'r Benthyciad Myfyrwyr ar gyfer Ffioedd Dysgu. Gyda'i gilydd, cyfrannodd y tair ffynhonnell hyn 56 y cant o'r cyfanswm incwm cyfartalog. Yn 2011/12, roedd yr incwm o'r ddwy ffynhonnell bryd hynny, y

[2] Datgelodd y gwaith o ddilysu data'r arolwg broblemau gyda rhai ymatebion a bu rhaid eithrio'r rhain o'r dadansoddiadau benthyca a dyled net. Gweler Pennod 6 i gael esboniad manylach o'r broblem, a sut yr ymdriniwyd â hi.

Benthyciadau Myfyrwyr ar gyfer Cynhaliaeth a Ffioedd Dysgu, yn cyfrif am 47 y cant o'r cyfanswm incwm cyfartalog.

4.4 Ymhlith myfyrwyr amser llawn, a allai gael hyd at £9,000 wedi'u codi arnynt am ffioedd dysgu yn 2014/15, cyfrannodd incwm y Benthyciad Myfyrwyr ar gyfer Ffioedd Dysgu £2,795 ar gyfartaledd i gyfanswm incwm (sy'n cyfrif am 17 y cant) tra'r oedd incwm Grant Ffioedd Llywodraeth Cymru'n uwch ar £3,317 (20 y cant o'r cyfanswm incwm cyfartalog). Cymerodd mwyafrif y myfyrwyr amser llawn, 85 y cant, Fenthyciad Myfyrwyr ar gyfer Ffioedd Dysgu (i fyny o 77 y cant yn 2011/12), ac ymhlith y myfyrwyr hyn, y swm cyfartalog a gafwyd oedd £3,300. Cafodd cyfran debyg (83 y cant) Grant Ffioedd Llywodraeth Cymru, lle cafwyd swm cyfartalog o £4,008.

4.5 Daeth myfyrwyr rhan-amser yn gymwys am y Benthyciad Myfyrwyr ar gyfer Ffioedd Dysgu am y tro cyntaf yn 2014/15. Cododd dwy ran o bump (41 y cant) o fyfyrwyr rhan-amser Fenthyciad Myfyrwyr ar gyfer Ffioedd Dysgu, gan gael £1,679 ar gyfartaledd, wrth i'r swm cyfartalog ar draws yr holl fyfyrwyr (gan gynnwys y rhai na chododd fenthyciad) fod yn £696.

4.6 Roedd yr incwm o'r Benthyciad Myfyrwyr ar gyfer Cynhaliaeth i fyfyrwyr amser llawn yn cyfrif am ryw un rhan o bump (19 y cant) o'r cyfanswm incwm cyfartalog ar gyfer y flwyddyn academaidd, gan gyfrannu £3,022 ar gyfartaledd. Yn 2011/12, cyfrifodd hyn am 24 y cant o'r incwm cyfartalog.

4.7 Ar y cyfan, cododd 81 y cant Fenthyciad Myfyrwyr ar gyfer Cynhaliaeth (cyfran ychydig yn is na'r hyn a gododd Fenthyciad Myfyrwyr ar gyfer Ffioedd Dysgu, ond uwchlaw'r gyfran o 73 y cant a adroddwyd yn yr arolwg blaenorol) ac, i'r derbynyddion, £3,755 oedd y cyfanswm cyfartalog a gafwyd o Fenthyciad Myfyrwyr ar gyfer cynhaliaeth.

4.8 Cafodd ryw hanner (51 y cant) o fyfyrwyr amser llawn incwm o Grant Dysgu Llywodraeth Cymru (neu Grant Cymorth Arbennig) nad oes angen ei ad-dalu i helpu gyda chostau byw, i fyny o 44 y cant yn 2011/12 (a gafodd Grant Dysgu'r Cynulliad neu Grant Cymorth Arbennig). Y swm cyfartalog a gafwyd mewn Grantiau Dysgu Llywodraeth Cymru neu Grantiau Cymorth Arbennig (i'r rhai a gafodd gymorth grant) oedd £3,340.

4.9 Cafodd ychydig dan chwarter (24 y cant) o fyfyrwyr amser llawn sy'n hanu o Gymru gymorth gan eu sefydliadau, sydd i lawr o 31 y cant yn 2011/12, gan gael £1,418 ar gyfartaledd. O gymharu, ychydig fyfyrwyr rhan-amser gafodd y math hwn o gymorth (11 y cant), ond roedd y swm cyfartalog yn debyg, ar £1,238. Yn hytrach, roedd y myfyrwyr rhan-amser yn fwy tebygol o gael cymorth ariannol gan gyflogwr. Gwnaeth chwarter (25 y cant) y myfyrwyr rhan-amser felly a chael cyfartaledd o £1,738 gyda'r nod pennaf o dalu ffioedd dysgu.

4.10 Cafodd myfyrwyr amser llawn o gefndiroedd dosbarth cymdeithasol arferol/llaw fwy o incwm ar gyfartaledd (mewn termau cymharol ac absoliwt) o ffynonellau cymorth i fyfyrwyr, fel benthyciadau a grantiau (£11,572 o'r prif ffynonellau cymorth i fyfyrwyr, a £1,968 o ffynonellau eraill) na'r rhai o gefndiroedd dosbarth cymdeithasol proffesiynol/rheoli (£10,525 o'r prif ffynonellau cymorth i fyfyrwyr a £1,346 o ffynonellau cymorth i fyfyrwyr eraill). Cafodd myfyrwyr o gefndiroedd dosbarth cymdeithasol proffesiynol/rheoli fwy, ar gyfartaledd, o ran cyfraniadau gan eu teuluoedd a'u ffrindiau (£2,281) na'r rheiny o gefndiroedd gwaith arferol/llaw (-£1).

4.11 Teimlai dwy ran o bump (42 y cant) o fyfyrwyr amser llawn fod eu penderfyniadau ar AU wedi'u heffeithio gan y cyllid i fyfyrwyr a'r cymorth ariannol oedd ar gael iddynt, cyfran uwch na ffigur 2011/12 o 33 y cant. Teimlai cyfran uwch o fyfyrwyr rhan-amser (51 y cant) iddynt gael eu heffeithio, ac unwaith eto, mae hyn yn uwch na'r ffigur o 39 y cant o 2011/12. Mewn perthynas â'r ffordd y teimlai'r grŵp fod eu penderfyniadau'n cael eu heffeithio, teimlai 62 y cant o fyfyrwyr amser llawn a 74 y cant o fyfyrwyr rhan-amser a deimlai bod eu penderfyniadau wedi'u heffeithio fel hyn, na fyddent wedi astudio heb gyllid. Mae hyn yn gyfwerth â chyfrannau cyffredinol o 26 y cant o fyfyrwyr amser llawn a 38 y cant o fyfyrwyr rhan-amser a deimlent na fyddent wedi gallu astudio heb y cyllid hwn, sydd unwaith eto'n gynnydd ar y cyfrannau yn 2011/12 (20 y cant a 21 y cant yn y drefn honno). Ymddengys mai'r prif gronfeydd sy'n effeithio ar y penderfyniadau oedd Grant Ffioedd

Llywodraeth Cymru a'r Benthyciad Myfyrwyr. Dywedodd dros draean o fyfyrwyr amser llawn a ddywedodd yr effeithiwyd ar eu penderfyniadau gan gronfa benodol, mai'r grant ffioedd oedd wedi dylanwadu arnynt. Dywedodd bron i hanner y myfyrwyr rhan-amser yr effeithiwyd arnynt mai'r benthyciad myfyrwyr oedd wedi dylanwadu arnynt.

**Enillion o waith**

4.12 Incwm o waith gyda thâl oedd y ffynhonnell incwm fwyaf arwyddocaol i fyfyrwyr rhan-amser, oedd yn cyfrif am ryw dri chwarter (76 y cant) o'u cyfanswm incwm. Ymhlith myfyrwyr amser llawn, roedd yr incwm o waith gyda thâl yn gwneud 11 y cant o'u cyfanswm incwm. Roedd y cyfrannau cyfanswm incwm y cyfrifwyd amdanynt gan waith gyda thâl yn weddol debyg i'r ffigurau yn arolwg 2011/12.

4.13 Gwnaeth ychydig dros hanner (55 y cant) o fyfyrwyr amser llawn rywfaint o waith gyda thâl yn ystod y flwyddyn academaidd, gan ennill £3,343 ar gyfartaledd, ac roedd y gyfran oedd yn gweithio a'r enillion cyfartalog uwchlaw'r lefelau yn 2011/12 ac yn cyfrif am gyfran debyg o gyfanswm incwm y myfyrwyr amser llawn. I fyfyrwyr amser llawn, roedd gweithio i'w weld fwyaf cyffredin ymhlith benywod, y rheiny oedd yn astudio'r gwyddorau dynol/cymdeithasol, busnes neu bynciau'r gyfraith, y rhai sy'n astudio mewn sefydliadau AB, yn fyfyrwyr priod neu'n cyd-fyw heb blant, y rhai sy'n byw gyda'u rhieni yn ystod y tymor, a myfyrwyr o statws annibynnol. Ymhlith y rhai sy'n gweithio, roedd yr enillion uchaf yn gysylltiedig â myfyrwyr 25 oed neu'n hŷn, myfyrwyr mewn cwpl (naill ai gyda phlant neu hebddynt), myfyrwyr blwyddyn olaf neu'r rhai sy'n gwneud cwrs un flwyddyn, y rhai sy'n astudio tuag at gymwysterau israddedig neu'n astudio'r gwyddorau dynol/cymdeithasol, busnes neu bynciau'r gyfraith, y rhai o statws annibynnol, a'r rhai sy'n astudio mewn sefydliadau AB.

4.14 Roedd cyfran ychydig yn uwch o fyfyrwyr amser llawn mewn gwaith parhaus (yn gweithio ar draws y flwyddyn academaidd lawn, 34 y cant) na swyddi mwy achlysurol (ar ryw adeg yn ystod y flwyddyn academaidd, 29 y cant). Mae hyn yn gwahaniaethu i'r patrwm yn yr arolwg blaenorol lle'r oedd y cyfrannau fwy neu lai'n gyfartal.

4.15 Yn 2011/12 a 2014/15, gwnaeth ryw hanner o fyfyrwyr amser llawn parhaus waith gyda thâl yn ystod gwyliau'r haf. Roedd y gyfran o 52 y cant yn 2014/15 ychydig yn uwch na'r 45 y cant i'w ganfod yn arolwg 2011/12.

4.16 Gwnaeth dri chwarter (75 y cant) o fyfyrwyr rhan-amser gyfuno astudio gyda gwaith, yn debyg i'r gyfran yn yr arolwg diwethaf, gan ennill £14,290 ar gyfartaledd, tri chwarter o'r cyfanswm incwm cyfartalog ar gyfer y grŵp hwn. Roedd y myfyrwyr rhan-amser hynny oedd yn lleiaf tebygol o wneud gwaith gyda thâl yn 40 oed neu'n hŷn, y rhai o grwpiau gwaith arferol/llaw, y rhai nad oedd gan eu rhieni brofiad o AU, y rhai nad oeddent yn byw gyda'u rhieni a theuluoedd un oedolyn (myfyrwyr un rhiant).

**Incwm gan deulu a ffrindiau**

4.17 Ar gyfartaledd, cafodd myfyrwyr amser llawn £1,179 gan eu teuluoedd (gan gynnwys rhieni, perthnasau eraill a phartneriaid) – roedd hyn yn cyfrif am saith y cant o'u cyfanswm incwm cyfartalog, oedd yn is na'r gyfran incwm o waith gyda thâl. Roedd y gyfran incwm hon gan deuluoedd yn sylweddol is na'r hyn a ganfuwyd yn arolwg 2011/12 o 13 y cant (ac sy'n parhau â'r duedd am i lawr mewn cymorth ariannol gan deuluoedd). Tueddai'r rhai a oedd yn cael y mwyaf gan deuluoedd fod o gefndiroedd myfyrwyr mwy 'traddodiadol' – myfyrwyr sengl heb blant, myfyrwyr dibynnol yn byw oddi cartref i astudio, ac o gefndiroedd rheoli/proffesiynol cymdeithasol-economaidd. Yn ogystal, roedd myfyrwragedd hefyd yn fwy tebygol o gael arian gan eu teuluoedd.

4.18 Daethpwyd o hyd i batrwm gwahanol i fyfyrwyr rhan-amser. At ei gilydd, roedd incwm gan deuluoedd yn llai canolog i fyfyrwyr rhan-amser, ac roedd yn negyddol mewn gwirionedd (-£992 ar gyfartaledd, i lawr o -£470 yn 2011/12) am fod myfyrwyr rhan-amser wedi cyfrannu incwm at, yn hytrach na wedi cael incwm gan eu teuluoedd. Ysgogwyd yr amrywiad rhwng myfyrwyr rhan-amser i

raddau helaeth yn ôl rhywedd (cyfrannodd gwrywod, lle derbyniodd y benywod), oedran (cyfrannodd y rhai rhwng 25 a 39 oed mwy na'r grwpiau hŷn neu iau), grŵp cymdeithasol-economaidd (derbyniodd y grŵp canolradd, lle cyfrannodd grwpiau eraill) a math o deulu (derbyniodd myfyrwyr unigol, lle cyfrannodd grwpiau eraill).

**Budd-daliadau nawdd cymdeithasol**

4.19 Derbyniodd lai o fyfyrwyr amser llawn incwm o fudd-daliadau nawdd cymdeithasol (11 y cant), ond roedd hyn yn uwch na'r gyfran i'w chanfod yn arolwg 2011/12 o saith y cant. Cynyddodd swm y budd-daliadau nawdd cymdeithasol a dderbyniwyd gan 80 y cant rhwng 2011/12 a 2014/15. I'r rhai oedd yn cael incwm o fudd-daliadau, roedd hyn yn cynrychioli ffynhonnell gymorth allweddol a derbyniasant gyfartaledd o £3,873. Dyma'r achos yn arbennig i deuluoedd un oedolyn (myfyrwyr rhieni sengl), a oedd yn derbyn cyfartaledd o £6,620, neu 25 y cant o'u cyfanswm incwm cyfartalog. Roedd budd-daliadau nawdd cymdeithasol yn ffynhonnell incwm gyffredin ymhlith myfyrwyr rhan-amser, gydag ychydig dros hanner (53 y cant) o fyfyrwyr rhan-amser yn hawlio incwm o'r ffynhonnell hon (yr un gyfran â 2011/12). Derbyniodd y myfyrwyr hyn gyfartaledd o £3,739. Unwaith eto, chwaraeodd budd-daliadau nawdd cymdeithasol rôl hynod allweddol i rieni sengl.

**Gwariant myfyrwyr**

4.20 Y cyfanswm gwariant cyfartalog (cymedrig) gan fyfyrwyr amser llawn sy'n hanu o Gymru yn 2014/15 oedd £19,224 oedd yn sylweddol uwch na'r ffigur (sy'n ystyried chwyddiant) o £14,324 yn 2011/12.

4.21 Y cyfanswm gwariant cyfartalog o fyfyrwyr rhan-amser oedd £18,813 oedd bron yn ddigyfnewid o'r lefelau yn 2011/12 o £18,776. Ar y cyfan, roedd gwariant myfyrwyr rhan-amser yn debyg iawn i'w cymheiriaid amser llawn. Cynrychiola hyn symudiad mawr o'r patrwm a ganfuwyd yn yr arolwg blaenorol lle'r oedd gwariant myfyrwyr rhan-amser 34 y cant yn uwch nag ar gyfer myfyrwyr amser llawn.

4.22 Ymhlith myfyrwyr amser llawn, roedd gwariant yn gysylltiedig â deiliadaeth tai ac roedd gan eu rhieni brofiad o AU. Roedd y rhai oedd yn byw gartref gyda'u rhieni neu gyda rhieni oedd â phrofiad o AU lefelau gwariant is. Ymhlith myfyrwyr rhan-amser, amrywiodd y gwariant yn ôl grŵp cymdeithasol-economaidd, deiliadaeth tai, rhywedd, grŵp oedran ac amgylchiadau teuluol. Canfuwyd lefelau gwariant uwch ymhlith gwrywod, y rhai sy'n rhentu ar eu pen eu hunain neu gyda'u teuluoedd, y rhai o gefndiroedd gwaith rheoli/proffesiynol a'r rhai oedd yn rhieni neu oedd â phartneriaid heb blant.

**Costau cyfranogi**

4.23 Roedd costau cyfranogi (h.y. y costau a achoswyd o ganlyniad uniongyrchol i fynychu prifysgol neu goleg, gan gynnwys ffioedd dysgu) yn cyfrif am fwyafrif y gwariant i fyfyrwyr amser llawn. Yn wir, roedd y costau hyn yn cyfansoddi cyfran uwch o wariant i fyfyrwyr amser llawn na myfyrwyr rhan-amser (46 y cant o gymharu ag 16 y cant). Gwariodd myfyrwyr amser llawn sy'n hanu o Gymru gyfartaledd o £8,834 ar gostau cyfranogi ym mlwyddyn academaidd 2014/15, roedd hyn yn fwy na dwbl y lefelau a wariwyd ar gostau cyfranogi yn 2011/12 o £3,970; fodd bynnag, mae'n bwysig nodi bod costau cyfranogi myfyrwyr amser llawn wedi'u cwmpasu'n rhannol gan Grant Ffioedd Llywodraeth Cymru heb brawf modd, felly byddai gwariant allan o boced wedi bod yn is i nifer fawr o fyfyrwyr. Gwariodd myfyrwyr rhan-amser dipyn yn is na'u cymheiriaid amser llawn ar y costau hyn, sef £3,026 ar gyfartaledd, ond mae hyn yn dal i gynrychioli cynnydd o 50 y cant ar y gwariant cyfranogi yn 2011/12 oedd yn £2,012.

4.24 O fewn y costau cyfranogi mae categorïau gwariant costau cwrs uniongyrchol a chostau hwyluso. Gwariodd y myfyrwyr amser llawn yn 2014/15 gyfartaledd o £519 ar gostau cwrs uniongyrchol fel llyfrau, cyfrifiaduron ac offer a £384 dros y flwyddyn academaidd ar gostau hwyluso (fel teithio a

gofal plant cysylltiedig â'r cwrs). Cyrhaeddodd y gwariant gan fyfyrwyr rhan-amser ar y costau hyn gyfartaledd o £478 a £470 yn y drefn honno. Ymhlith y myfyrwyr amser llawn, roedd y costau uniongyrchol yn uwch i'r rheiny sy'n astudio'r celfyddydau creadigol, ieithoedd neu'r dyniaethau.

**Costau byw**

4.25 Roedd costau byw'n cyfansoddi'r categori gwariant mwyaf i fyfyrwyr rhan-amser ar 61 y cant o'r holl wariant, a'r ail gategori mwyaf i fyfyrwyr amser llawn ar 37 y cant. Roedd y costau byw'n cyfrif am £7,018 i fyfyrwyr amser llawn a £11,528 o wariant myfyrwyr rhan-amser. I fyfyrwyr amser llawn a rhan-amser, parhaodd y costau byw'n ddigyfnewid i raddau helaeth o gyfartalion 2011/12 o £6,980 a £11,817 yn y drefn honno. Roedd y categori cost mwyaf ymhlith y cyfanswm costau byw i fyfyrwyr amser llawn a rhan-amser yn eitemau personol, wedi'i ddilyn gan deithio heb fod yn rhan o'r cwrs. Ymhlith myfyrwyr amser llawn, roedd y gwariant ar gostau byw ar ei uchaf ymhlith myfyrwyr gyda phlant, a hefyd yn amrywio yn ôl deiliadaeth tai, profiad y rhieni o AU a'r math o sefydliad a fynychwyd.

**Costau tai**

4.26 Roedd y costau tai'n cyfrif am ryw un rhan o bump o'r cyfanswm gwariant cyfartalog: 18 y cant i fyfyrwyr amser llawn a rhan-amser. I fyfyrwyr amser llawn, y gwariant cyfartalog ar ddau ar gyfer blwyddyn academaidd 2014/15 oedd £3,377 a £3,430 i fyfyrwyr rhan-amser. Unwaith eto, i fyfyrwyr amser llawn a rhan-amser, parhaodd y costau tai'n ddigyfnewid i raddau helaeth i gyfartalion arolwg 2011/12 o £3,464 a £3,506 yn y drefn honno. Yn nodweddiadol, roedd myfyrwyr amser llawn yn byw mewn eiddo rhent (heb fod yn eiddo prifysgol) gyda ffrindiau neu fyfyrwyr eraill, gyda'u rhieni neu berthnasau, neu mewn llety a ddarperir gan y brifysgol. Gyda chyfartaledd gwariant o £4,341, y myfyrwyr mewn llety prifysgol oedd â'r costau tai uchaf. Roedd myfyrwyr rhan-amser yn fwy tebygol o brynu neu rentu eiddo'n breifat (ar eu pen eu hunain neu gyda theulu) ond er gwaethaf hyn roedd ganddynt lefel debyg o gostau tai i fyfyrwyr amser llawn gan adlewyrchu'r gyfran uwch o fyfyrwyr rhan-amser mewn cyplau ac felly'n rhannu'r costau hyn gyda phartner. I fyfyrwyr amser llawn a rhan-amser, roedd y costau tai'n uwch i'r rheiny sy'n rhentu nag i'r rheiny oedd yn berchen ar eu cartrefi eu hunain.

**Gwariant ar blant**

4.27 Gwariant ar blant oedd y categori gwariant lleiaf, gan gyfrif am ddim ond dau y cant o holl wariant y myfyrwyr amser llawn a phump y cant o holl wariant y myfyrwyr rhan-amser yn 2014-15, ond mae hyn yn adlewyrchu cyfran isel y myfyrwyr gyda gwariant cysylltiedig â phlant. Ar draws yr holl fyfyrwyr amser llawn, £352 oedd y gwariant cyfartalog ar blant, ac i fyfyrwyr rhan-amser roedd yn llawer uwch ar £1,154 ond roedd hyn oherwydd bod cyfran fwy o fyfyrwyr rhan-amser yn rhieni. Roedd deg y cant o fyfyrwyr amser llawn a 50 y cant o fyfyrwyr rhan-amser yn rhieni oedd yn byw gyda'u plant; ymhlith y rhain, gwariodd myfyrwyr amser llawn £3,655 a gwariodd myfyrwyr rhan-amser £1,982 ar gostau cysylltiedig â phlant (ac eithrio teithio a bwyd a diod cyffredinol cysylltiedig â phlant) dros y flwyddyn academaidd.

## 5. Cynilion, benthyca a dyled

5.1 Mae rhyw hanner y myfyrwyr amser llawn a rhan-amser yn cael arian wedi'i 'roi i'r naill ochr' fel arbedion ar ddiwedd y flwyddyn academaidd, ac mae'r ddau grŵp yn darogan lefelau tebyg o'r cynilion hyn, £1,746 ar gyfartaledd o gymharu â £1,802. Fodd bynnag, er bod myfyrwyr rhan-amser wedi darogan bod y cynilion a ragwelwyd ond wedi cynyddu'n gymedrol rhwng 2011/12 a 2014/15 (cynnydd o wyth y cant o £1,670), roedd y cynilion a ragwelwyd ymhlith myfywyr amser llawn 42 y cant yn uwch na 2011/12 (ar £1,229). Ymhlith myfyrwyr amser llawn, rhagwelwyd y byddai'r lefelau

cynilion cyfartalog yn cynyddu ychydig yn ystod y flwyddyn academaidd; fodd bynnag, ymhlith yr holl fyfyrwyr rhan-amser, rhagwelwyd y byddai'r cynilion cyfartalog yn gostwng ychydig. Canfuwyd bod y prif wahaniaethau yn lefel y cynilion a ragwelwyd i fyfyrwyr amser llawn a rhan-amser gyda gwahanol amgylchiadau teuluol, ond sylwyd ar wahaniaethu yn ôl rhywedd, oedran, profiad y rhieni o AU a'r grŵp cymdeithasol-economaidd. Rhagwelodd myfyrwyr amser llawn a rhan-amser yn nengradd uchaf y symiau cynilo dros £4,000 mewn cynilion.

5.2 Roedd myfyrwyr amser llawn yn fwy tebygol o fenthyg arian na myfyrwyr rhan-amser (roedd gan 97 y cant ryw fath o fenthyciad o gymharu ag 83 y cant o fyfyrwyr rhan-amser), ac roedd gwneuthuriad eu benthyca a maint cymharol eu benthyca'n gwahaniaethu hefyd. Cymharol ychydig oedd nifer y myfyrwyr amser llawn a drodd at fenthyca masnachol, ond cynyddodd dyled y cardiau credyd ychydig (o 17 i 18 y cant) a gostyngodd cyfran y gorddrafftiau banc (o 47 i 35 y cant) o gymharu ag arolwg 2011/12. Roedd y symiau cyfartalog a fenthyciwyd o'r ffynonellau hyn ar draws yr holl fyfyrwyr amser llawn yn fach (£613 mewn dyled cardiau credyd a £305 mewn gorddrafftiau banc). Fodd bynnag, lle'r oedd y y myfyrwyr wedi defnyddio'r ffynonellau hyn, roeddent yn tueddu i fenthyca yn gymharol drwm ganddynt (dyled cardiau credyd o £3,427 ac £884 mewn gorddrafftiau). Amrywiodd newidiadau rhwng arolygon mewn patrymau benthyca rhwng myfyrwyr oedd yn eu blwyddyn gyntaf, neu flynyddoedd dilynol: i fyfyrwyr blwyddyn gyntaf, gwnaeth benthyca o gredyd masnachol fwy na dyblu rhwng y ddau arolwg wrth i'r symiau dyledus mewn gorddrafftiau gynyddu rhyw ychydig; i fyfyrwyr yr ail flwyddyn, cynyddodd y benthyca o ffynonellau masnachol (ond nid mor ddramatig ag y canfuwyd ymhlith y blynyddoedd cyntaf) a gostyngodd benthyca trwy orddrafftiau; ac ar gyfer myfyrwyr trydedd flwyddyn, parhaodd y benthyca o ffynonellau masnachol yn sefydlog ac unwaith eto gostyngodd ddyled y gorddrafft rhwng y ddau arolwg. Hefyd yn arolwg 2011/12, roedd y benthyca cyfartalog o orddrafftiau'n uwch nag y canfuwyd ar gyfer cardiau credyd, ac eto roedd y gwrthwyneb yn wir yn 2014/15 lle'r oedd y symiau cyfartalog oedd yn ddyledus ar gardiau credyd yn uwch na'r symiau oedd yn ddyledus mewn gorddrafftiau.

5.3 Prif elfen benthyca'r myfyrwyr amser llawn oedd dyled benthyciadau myfyrwyr; roedd gan 92 y cant o fyfyrwyr amser llawn ddyled benthyciadau myfyrwyr. Roedd gan fyfyrwyr amser llawn y flwyddyn gyntaf gyfartaledd o £6,270 mewn dyled benthyciad myfyrwyr dyledus, a'r ffigurau ar gyfer myfyrwyr ail a thrydedd flwyddyn oedd £13,561 a £17,722. Mae'r ffigurau hyn yn debyg iawn i'r rhai yn arolwg 2011/12 o £6,345, £13,683 ac £17,562. Mae hyn oherwydd cefnogaeth Grant Ffioedd Llywodraeth Cymru a oedd yn gwneud i fyny am y cynnydd mewn ffioedd dysgu rhwng y ddau arolwg, felly nid oedd angen i fyfyrwyr gymryd benthyciadau ffioedd uwch.

5.4 Golyga hyn fod y cyfanswm benthyca ac felly'r ddyled net (hynny yw benthyca llai cynilion) wedi aros yn sefydlog i fyfyrwyr amser llawn yr oedd y wybodaeth ddibynadwy am fenthyciadau myfyrwyr ar gael rhwng 2011/12 a 2014/15. Adroddodd myfyrwyr amser llawn y drydedd flwyddyn y lefelau dyled net uchaf (£17,958 yn 2011/12 gan gwympo ychydig i £16,511 yn 2014/15 yn sgil y lefelau cynilion uwch ymhlith y grŵp hwn yn 2014/15). Ymhlith y grŵp hwn o fyfyrwyr, amrywiodd y benthyca yn ôl y pwnc a astudiwyd, ac amrywiodd y ddyled net yn ôl y pwnc a astudiwyd a'r math o sefydliad a fynychwyd (yn is ar gyfer myfyrwyr mewn SAUau yng Nghymru na Lloegr).

5.5 O gymharu, roedd y myfyrwyr rhan-amser llawer yn fwy tebygol o ddefnyddio ffynonellau benthyca masnachol na myfyrwyr amser llawn, gyda 31 y cant yn meddu ar orddrafft a 50 y cant yn meddu ar ddyled cerdyn credyd. Mae'r symiau a fenthyciwyd o'r ddwy ffynhonnell hyn wedi cynyddu o 2011/12 i 2014/15. Yn arolwg 2014/15 hefyd, roedd rhai myfyrwyr rhan-amser yn gymwys am Fenthyciadau Myfyrwyr ar gyfer Ffioedd Dysgu, ac felly cronnodd 47 y cant o fyfyrwyr rhan-amser ddyled benthyciad myfyrwyr (gyda chyfartaledd ar draws yr holl fyfyrwyr rhan-amser o £2,711 ond £5,793 i'r rhai gyda dyled benthyciad myfyrwyr). Golyga hyn fod cyfanswm benthyca cyfartalog myfyrwyr rhan-amser wedi mwy na dyblu rhwng y ddau arolwg (o £2,132 i £4,856). Er gwaethaf cynnydd bach yn y cynilion a ragwelwyd, cynyddodd ddyled net y myfyrwyr rhan-amser yn sylweddol hefyd o arolwg 2011/12 i arolwg 2014/15 (o £587 i £3,033 ar gyfer y garfan gyfan).

5.6 Mae'n bosibl amcangyfrif dyled y graddedigion i fyfyrwyr amser llawn trwy ddidynnu'r cynilion a ragwelir ar ddiwedd y flwyddyn o'r benthyciadau a ragwelir ar ddiwedd y flwyddyn (i fyfyrwyr blwyddyn olaf ar gyrsiau tair blynedd). Arweinia hyn at ddyled ddisgwyliedig gyfartalog o £15,971 i'r rhai sy'n graddio o gyrsiau amser llawn, sy'n ddigyfnewid i raddau helaeth o'r lefel yn 2011/12 o £16,031.

## 6. Cymharu â Lloegr

6.1 Nid oedd gwir wahaniaethau yn lefel incwm neu wariant myfyrwyr amser llawn rhwng myfyrwyr sy'n hanu o Gymru a Lloegr, sy'n dilyn patrymau yn yr arolygon blaenorol. Yn ogystal, ychydig iawn o wahaniaeth oedd yn y ffynonellau incwm rhwng y ddwy garfan. Roedd y lefelau incwm bron yr un fath (£16,284 a £16,949 yn y drefn honno), ond roedd lefelau gwario yn is ar gyfartaledd ymhlith y myfyrwyr oedd yn hanu o Gymru (£19,224 o gymharu â £19,992). Adroddodd myfyrwyr sy'n hanu o Gymru a Lloegr lefelau cynilion tebyg ond roedd gan fyfyrwyr sy'n hanu o Gymru lefelau cyfanswm benthyca llawer is ac felly dyled net is na myfyrwyr sy'n hanu o Loegr. Roedd hyn oherwydd hawl y myfyrwyr oedd yn hanu o Gymru i Grant Ffioedd Llywodraeth Cymru oedd yn talu am ran o'u ffioedd a olygai nad oedd angen iddynt godi lefel benthyciadau mor uchel â myfyrwyr sy'n hanu o Loegr. Adlewyrchir hyn hefyd yn nyled net y graddedigion[3], ac adroddodd myfyrwyr oedd yn hanu o Gymru ddyled graddedig net llawer is na myfyrwyr sy'n hanu o Loegr (£15,971 o gymharu â £28,811).

6.2 Roedd incwm cyfartalog myfyrwyr rhan-amser sy'n hanu o Gymru'n is nag incwm myfyrwyr sy'n hanu o Loegr (£13,962 ar gyfartaledd o gymharu â £17,256), ac mae hyn yn dilyn patrymau mewn arolygon blaenorol. Cafodd ei gymell yn bennaf yn sgil derbyn swm is gan y prif ffynonellau cymorth myfyrwyr yn sgil cyflwyno benthyciadau ffioedd yn nes ymlaen i fyfyrwyr rhan-amser yng Nghymru. Er bod 41 y cant o fyfyrwyr rhan-amser sy'n hanu o Gymru wedi codi benthyciad myfyrwyr ac wedi derbyn cyfartaledd o £1,679, cododd 67 y cant o fyfyrwyr rhan-amser sy'n hanu o Loegr fenthyciad myfyrwyr a derbyniasant gyfartaledd o £3,785). Fodd bynnag, derbyniodd cyfran uwch o fyfyrwyr rhan-amser sy'n hanu o Gymru gymorth gan ffurfiau cymorth wedi'u targedu nag y canfuwyd ar gyfer myfyrwyr sy'n hanu o Loegr, sy'n adlewyrchu cymhwyster ehangach y cronfeydd hyn ymhlith myfyrwyr sy'n hanu o Gymru. Roedd lefelau gwariant myfyrwyr rhan-amser yn debyg i fyfyrwyr sy'n hanu o Gymru a myfyrwyr sy'n hanu o Loegr (£18,813 a £18,375 yn y drefn honno). Fodd bynnag, roedd costau byw myfyrwyr rhan-amser sy'n hanu o Gymru'n uwch na'r rhai a ganfuwyd ar gyfer eu cymheiriaid sy'n hanu o Loegr, lle'r oedd eu costau cyfranogi'n gymharol is.

6.3 O edrych ar eu sefyllfa ariannol, adroddodd myfyrwyr rhan-amser sy'n hanu o Gymru lefelau cynilion is na myfyrwyr sy'n hanu o Loegr, ond roedd gan fyfyrwyr sy'n hanu o Gymru lefelau cyfanswm benthyca is ac felly dyled net is na myfyrwyr sy'n hanu o Loegr (yn sgil y rhagarweiniad diweddarach o fenthyciadau myfyrwyr i fyfyrwyr rhan-amser sy'n byw yng Nghymru). Roedd y lefelau dyled net, ar draws pob blwyddyn, yn £3,033 i fyfyrwyr rhan-amser sy'n hanu o Gymru a £4,128 i fyfyrwyr rhan-amser sy'n hanu o Loegr.

6.4 O ran agweddau at gyllid, nid oedd gwahaniaethau mawrion rhwng myfyrwyr amser llawn sy'n hanu o Gymru a Lloegr yn y tebygolrwydd o gyllid (ariannu a chymorth ariannol) yn dylanwadu ar benderfyniadau ar AU, ac roedd hyn yn wir am fyfyrwyr rhan-amser hefyd. Yn ogystal, nid oedd gwahaniaethau mawr yn y ffyrdd yr effeithiodd penderfyniadau ymhlith myfyrwyr amser llawn, gydag un eithriad allweddol - roedd myfyrwyr amser llawn sy'n hanu o Gymru'n fwy tebygol o adrodd fod y lleoliad astudio (h.y. Cymru neu Loegr) yn cael ei ddylanwadu gan y cymorth ariannol oedd ar gael iddynt. Fodd bynnag, roedd y ffyrdd y cafodd myfyrwyr rhan-amser eu dylanwadu'n llawer mwy amrywiol o gymharu â myfyrwyr sy'n hanu o Gymru a Lloegr.

---

[3] Y rhai sydd ym mlwyddyn olaf cwrs tair blynedd (a adroddodd fenthyciadau o fenthyciad myfyrwyr blaenorol)

6.5 Sylwyd ar wahaniaethau rhwng myfyrwyr sy'n hanu o Gymru ac sy'n hanu o Loegr yn y tebygolrwydd y bydd costau ffioedd yn dylanwadu ar benderfyniadau AU. Roedd myfyrwyr amser llawn sy'n hanu o Gymru'n llai tebygol o roi gwybod bod eu penderfyniadau AU wedi'u heffeithio gan gostau ffioedd na'u cymheiriaid sy'n hanu o Loegr (19 y cant o gymharu â 25 y cant). Fodd bynnag, roedd myfyrwyr rhan-amser sy'n hanu o Gymru yn fwy tebygol o adrodd bod eu penderfyniadau wedi'u dylanwadu gan gostau ffioedd na myfyrwyr rhan-amser sy'n hanu o Loegr (33 y cant a 29 y cant).

Awduron yr Adroddiad:
NatCen Social Research: Jo Maher, Keeva Rooney, Mari Toomse-Smith,
Zsolt Kiss (ZK Analytics)
Institute for Employment Studies: Emma Pollard, Matthew Williams, Jim Hillage, Martha Green, Clare Huxley, Wil Hunt

Adroddiad ymchwil llawn - dyfyniad: NatCen Social Research/Institute for Employment Studies (2018). *Arolwyg Incwm a Gwariant Myfyrwyr 2014-15*. Caerdydd: Llywodraeth Cymru, GSR adroddiad rhif **18/2018.**

Ar gael yn: http://gov.wales/statistics-and-research/student-income-expenditure-survey/?lang=cy

Mae'r safbwyntiau a fynegwyd yn yr adroddiad hwn yn perthyn i'r ymchwilwyr ac nid o reidrwydd Llywodraeth Cymru

I gael rhagor o wybodaeth, cysylltwch â:

Sara James
Yr Is-adran Ymchwil Gymdeithasol a Gwybodaeth
Gwasanaethau Gwybodaeth a Dadansoddi
Llywodraeth Cymru, Parc Cathays
Caerdydd, CF10 3NQ

E-bost: gwerthuso.ymchwil@llyw.cymru

OGL © Hawlfraint y Goron ISBN digidol: 978-1-78903-143-0